**Y Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Randdeiliaid

**YMATEB I GORONAFEIRWS COVID-19**
**DIWYGIADAU I WEITHDREFNAU AR GYFER YMGYNGHORI CYN YMGEISIO A DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL**
**GORCHYMYN CEISIADAU CYNLLUNIO (ADDASIADAU A DATGYMHWYSO DROS DRO) (RHIF 3) (CYMRU) (CORONAFEIRWS) 2020**

Cyflwynodd Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ddiwygiadau dros dro i'r weithdrefn ymgynghori cyn ymgeisio, i'r gofynion sy'n gysylltiedig â chyflwyno Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DACh) ac ymgynghori â chynghorau cymuned. Roedd y Gorchymyn uchod yn rhagnodi cyfnod brys a fyddai'n dechrau ar 19 Mai ac yn dod i ben ar 18 Medi 2020 pryd y byddai'r diwygiadau dros dro yn weithredol. Cafodd y cyfnod hwnnw ei estyn tan 8 Ionawr 2021 gan Orchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

Mae'r argyfwng COVID-19 yn parhau yn y Deyrnas Unedig. Er mwyn rhoi sicrwydd ar drothwy 2021, gwnaed Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Mae'n estyn y cyfnod brys pryd y bydd y diwygiadau dros dro i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 yn gymwys, a hynny tan 8 Hydref 2021.

Caiff ymgynghoriad ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd ar ateb parhaol, hirdymor.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych am ddwyn unrhyw beth at sylw Llywodraeth Cymru, mae croeso ichi anfon neges e-bost ataf ar prifswyddogcynllunio@llyw.cymru.

Yn gywir



**Neil Hemington**
**Y Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.